**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Mercher 23 Hydref 2002 |
| Amser: | 9:00am hyd 12:00pm |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

**Yn Bresennol:**

***Aelodau:***

| | |
|---|---|
| Tom Middlehurst, Cadeirydd Dros Dro | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| David Davies | Mynwy |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Brian Hancock | Islwyn |
| Sue Essex, y Gweinidog dros yr Amgylchedd | Gogledd Caerdydd |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

***Swyddogion:***

| | |
|---|---|
| Martin Evans | Cyfarwyddwr yr Adran Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd |
| Barry Dare (eitemau 2 a 3) | Yr Is-adran Diogelu'r Amgylchedd |
| Nicola Donlon (eitemau 2, 3 a 4) | Yr Is-adran Cefn Gwlad |
| Denzil Jones (eitemau 2 a 3) | Pennaeth yr Is-adran Polisi Trafnidiaeth |

| | |
|---|---|
| Robin Shaw (eitemau 2 a 3) | Y Cyfarwyddwr Trafnidiaeth |

***Yr Ysgrifenyddiaeth:***

| | |
|---|---|
| Siwan Davies | Clerc y Pwyllgor |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Peter Jones (eitem 6) | Cwnsler Pwyllgorau'r Cynulliad |

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant**

1.1 Yn absenoldeb Richard Edwards, etholwyd Tom Middlehurst yn Gadeirydd dros dro o dan Reol Sefydlog 8.17. Croesawodd y Cadeirydd y Pwyllgor, y swyddogion ac aelodau o'r cyhoedd i gyfarfod cyntaf y tymor.

1.2 Roedd ymddiheuriadau wedi dod i law gan Richard Edwards.

1.3 Dyma'r datganiadau o fuddiant, yn unol â Rheol Sefydlog 4.5:

- Brian Hancock - cyn cael ei ethol i'r Cynulliad Cenedlaethol, roedd yn gweithio fel ymgynghorydd ym maes Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd;
- Val Lloyd - Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe.

**Eitem 2: Adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd** -EPT-14-02 (p 1)

1. Yn ychwanegol at yr eitemau yn ei hadroddiad ysgrifenedig, rhoddodd y Gweinidog wybod i'r Pwyllgor am y digwyddiadau canlynol:

- Cynhadledd ar yr Amgylchedd Hanesyddol ar 10 Gorffennaf;
- Cyfarfod Gweinidogion Amgylchedd Rhanbarthau Sbardun Ewrop ar 18 Hydref;
- Cynhadledd Europarc 2002 ar 3/4 Hydref.

2.2 Dyma'r prif bwyntiau a drafodwyd:

**Cefn Gwlad**

- Rheoliadau cadwraeth - yr angen i gydbwyso datblygiad economaidd a chadwraeth, diogelu safleoedd 'diffaith' sy'n llawn bioamrywiaeth erbyn hyn, a chysoni gofynion y gwahanol reoliadau cadwraeth â'r system gynllunio. Croesawyd y gweithgor a sefydlwyd

er mwyn archwilio ffyrdd ymarferol o weithredu darpariaethau diogelu rhywogaethau'r Gyfeireb Cynefinoedd;

- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig - eglurhad mai dim ond â'r safleoedd hynny a restrir yn yr adroddiad yr oedd a wnelo'r newidiadau, a bod Aber Hafren dal dan ystyriaeth.

**Diogelu’r Amgylchedd;**

- Ardaloedd Sensitif - cais am fanylion ynghylch Llyn Tegid, a fyddai'n cael eu darparu gan y Gweinidog y tu allan i'r pwyllgor;

- Strategaeth y DU ar gyfer Gollwng Ymbelydredd - cais am ddiffiniad o 'lefelau hanesyddol' ymbelydredd, a fyddai'n cael ei ddarparu gan y Gweinidog y tu allan i'r pwyllgor;

- Codau Ymarfer (Swn) - cais am fanylion y rhaglen ar gyfer gosod wynebau newydd ar y rhwydwaith cefnffyrdd ger ardaloedd preswyl, a fyddai'n cael eu darparu gan y Gweinidog y tu allan i'r pwyllgor;

- Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol - natur y targedau yng Nghymru a'r angen i gydweithio â diwydiant er mwyn sicrhau ein bod yn eu cyflawni. Byddai'r Gweinidog yn dosbarthu adroddiad yr ymgynghorydd ar dargedau i'r Aelodau y tu allan i'r pwyllgor;

- Rheoliadau gwastraff - yr angen i asesu effaith y rheoliadau arfaethedig parthed pacio a deunyddiau trydanol ar fyd busnes.

**Cynllunio**

- Ymchwil - yr angen i ymgorffori canlyniadau'r gwaith ymchwil i 'Ail Gartrefi a Chartrefi Gwyliau a'r System Cynllunio Defnydd Tir' yn y canllawiau cynllunio;

- Treillio - byddai'r Gweinidog yn cyhoeddi datganiad polisi yn fuan mewn perthynas â chloddio tywod a graean.

**Trafnidiaeth**

- Cynlluniau Partneriaeth Ansawdd - eglurhad y gellid cynnwys y cyfleusterau presennol drwy gyd-gytundeb rhwng awdurdodau lleol a'r cwmnïau bws;

- Teithio'n rhatach - cefnogaeth i'r adolygiad o'r fformwla ar gyfer ariannu'r gwaith y mae'r awdurdodau lleol yn ei wneud i gyflwyno'r cynllun;

- Gwasanaethau rheilffordd rhwng y Gogledd a'r De - croesawu'r gwasanaeth newydd;

- Masnachfraint Rheilffyrdd Wales and Borders - yr angen, yng nghyfarfod 4 Rhagfyr, i gynnal trafodaethau gyda'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol ynghylch eu manyleb i rai sy'n cyflwyno cynigion ar gyfer gwasanaethau presennol a gwell gwasanaethau;

- Y Diwydiant Awyrennau - yr angen i drafod effaith y cynnig ynghylch maes awyr Severnside ar Gymru yng nghyfarfod 20 Tachwedd, a'r awgrym y dylid gwahodd y Pwyllgor Datblygu Economaidd i fod yno:

- Hebrwng llwythi trwm - cais am y wybodaeth ddiweddaraf ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan Adran Drafnidiaeth y DU, a fyddai'n cael ei darparu gan y Gweinidog y tu allan i'r pwyllgor.

**Eitem 3: Cyllideb Ddrafft** -EPT-14-02 (p 2)

3.1 Gofynnodd y Gweinidog am farn y Pwyllgor ar y gyllideb ddrafft ar gyfer y portffolio EPT.

3.2 Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y meysydd canlynol:

- Cadwraeth - rhywfaint o bryder ynghylch y gostyngiad yn yr arian sydd ar gael ar gyfer gweithredu Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, a chefnogaeth i'r cynnig i barhau i ariannu mesurau cadwraeth;

- Trafnidiaeth integredig - croesawu'r adnoddau ychwanegol, yn enwedig y rhaglen cefnffyrdd, a galw ar awdurdodau lleol i sicrhau digon o arian i wella ffyrdd bach lleol;

- Rhan 2 Bute Avenue - cadarnhad bod y Cynulliad yn ariannu'r cyswllt rheilffyrdd, sy'n ymrwymiad a etifeddwyd yn sgil dirwyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd i ben;

- Teithio'n rhatach - croesawu'r arian ychwanegol a ryddhawyd er mwyn ateb y galw ymhlith pobl anabl a phensiynwyr i gael teithio ar fysiau am ddim;

- Diogelwch rhag llifogydd - croesawu'r arian ychwanegol ar gyfer cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd ac amddiffyn arfordiroedd.

3.3 Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog gan nodi ymateb y Pwyllgor yn ffurfiol i'r gyllideb ddrafft (gweler y copi yn yr Atodiad).

**Eitem 4: Adolygiad Bioamrywiaeth: ymgynghori a'r camau nesaf** - EPT-14-02 (p 3)

1. Adroddodd y Cadeirydd yn ôl ar y prif themâu a oedd yn deillio o'r ymgynghoriad a'r trefniadau arfaethedig ar gyfer ystyried y materion hyn yn fanylach yn y cyfarfod nesaf.
1. Cytunodd y Pwyllgor ar y trefniadau arfaethedig ar gyfer cyfarfod 6 Tachwedd.

**Eitem 5: Rhaglen Waith** - EPT-14-02 (p 4)

5.1 Gwahoddwyd y Pwyllgor i gytuno ar ei raglen waith fanwl ar gyfer tymor yr hydref.

5.2 Cytunodd y Pwyllgor ar y rhaglen ddrafft sy'n atodol i'r papur. Hefyd, gofynnwyd i'r Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ganlynol i'r Pwyllgor:

- Deddfwriaeth Ewropeaidd - gwybodaeth reolaidd ar ddeddfwriaeth Ewropeaidd arfaethedig a fydd yn effeithio ar Gymru;

- Cynllun Gofodol - fel rhan o'r wybodaeth ar 4 Rhagfyr, manylion y cydgysylltiad rhwng datblygu'r Cynllun a'r diwygiad i Nodyn Cyngor Technegol 8;

- (y tu allan i'r pwyllgor) Adolygiad o Gronfa Datblygu'r Amgylchedd - copi o'r adroddiad.

**Eitem 6: Deddfwriaeth: Rhagolwg** - EPT-14-02 (p 5)

1. Gwahoddodd papur y Cadeirydd y Pwyllgor i nodi deddfwriaeth ddrafft y byddent yn ei harchwilio yn y dyfodol.

6.2 Cytunodd y Pwyllgor y dylid gadael lle yn ei raglen waith i ganiatáu amser i graffu ar unrhyw Fesur Cynllunio newydd, yn hytrach na threfnu amser penodol i ystyried is-ddeddfwriaeth ddrafft nawr. Ond gofynnodd Aelodau am ragor o wybodaeth gan y Gweinidog ar yr eitemau canlynol yn ei rhagolwg is-ddeddfwriaeth:

- Cyfarwyddeb Diogelu'r Amgylchedd (Ffatrïoedd Ymlosgi) (Cymru) 2002;
- Rheoliadau Cyflenwadau Dwr Preifat;
- Rheoliadau Diwygio Gwastraff Arbennig.

**Eitem 7: Cofnodion cyfarfod 17 Gorffennaf 2002** - EPT-13-02 (min)

7.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

8.1 Byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor am 9.30am ddydd Mercher 6 Tachwedd yng Nghynulliad

Cenedlaethol Cymru.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Hydref 2002**